Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

28.08.25

Annwyl Rhiant/Gwarchodwr,

Gobeithio eich bod yn cadw'n dda wrth i ni baratoi i ddechrau y flwyddyn academaidd newydd.

**Dathlu Llwyddiant**
Hoffem longyfarch yn fawr ein dysgwyr ym Mlwyddyn 11 a Blwyddyn 13 ar eu canlyniadau TGAU ac Lefel A eleni. Rydym yn hynod falch o'u gwaith caled, eu gwydnwch a'u cyflawniadau, ac rydym yn dymuno pob llwyddiant iddynt yn y cam nesaf o'u haddysg, eu hyfforddiant neu'u cyflogaeth.

| DECHRAU TYMOR YR HYDREF 2025 | |
|---|---|
| Llun 01.09.25 a Mawrth 02.09.25 | HMS – dim ysgol i ddisgyblion |
| Mercher 03.09.25 | Blwyddyn 7, 12 a 13eg yn unig i fynychu'r ysgol |
| Iau 04.09.25 | Pob disgybl yn dychwelyd Bl. 7-13eg |

**Cyfathrebu'r Ysgol – SatchelOne**
Byddwn yn parhau i ddefnyddio *SatchelOne* fel ein prif lwyfan cyfathrebu â rhieni a gwarchodwyr. Gofynnwn i chi sicrhau bod gennych fynediad at yr ap ac i'w wirio'n rheolaidd am ddiweddariadau, llythyrau a negeseuon pwysig. Os oes angen unrhyw gymorth arnoch i'w osod neu i'w ddefnyddio, cysylltwch â Mr Mark Bridgens, BridgensM@hwbcymru.net, a fydd yn hapus i'ch cynorthwyo.

**Polisi Ffôn Symudol**
Hoffem ddiolch i bawb, yn rieni, disgyblion a llywodraewthyr, wnaeth ymateb i'r drafft o'r diwygiadau i'n polisi ffôn symudol a rannwyd ym mis Gorffennaf. Rydym wedi ystyried yr holl sylwadau'n ofalus, ac rydym bellach yn cadarnhau y bydd y diwygiadau arfaethedig yn cael eu gweithredu o ddechrau'r tymor newydd. Gweler y ddolen i gael mynediad i'r polisi cyfredol: Polisi Ffôn Symudol — Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe

**Cefnogaeth Ariannol**
Mae Llywodraeth Cymru yn darparu ystod o gymorth ariannol i helpu teuluoedd gyda chostau sy'n gysylltiedig ag ysgol Cymorth ariannol ar gael i ddysgwyr a'u teuluoedd | LLYW.CYMRU. Anogwn bob rhiant a gwarcheidwad i wirio eu hawl a manteisio ar y cymorth sydd ar gael. Gall hyn helpu gyda chostau megis gwisg ysgol, offer a chyfarpar addysgol eraill – gwiriwch ein taflen am gefnogaeth pellach i gael mynediad i'r grantiau: Cefnogaeth gyda chymorth ariannol. Os allwn ni gefnogi ymhellach fel ysgol, peidiwch ag oedi i gysylltu â ni ar cymorth_supportBT5@hwbcymru.net.

**Siop Cyfnewid Gwisg Ysgol**
Rydym yn falch o'ch atgoffa bod ein *Siop Cyfnewid Gwisg Ysgol* yn parhau i redeg yn yr ysgol. Mae hon yn gyfle gwych i ailgylchu eitemau o ansawdd da, arbed arian, a chefnogi ein hymrwymiad i gynaliadwyedd. Cysylltwch â swyddfa'r ysgol i gael mwy o wybodaeth am sut i gyfrannu neu dderbyn eitemau gwisg. Yn ogystal, croeso i chi ymweld â'r siop elusennol 'O Law i Law' yng Nghlydach.

Diolch yn fawr, fel arfer, am eich cefnogaeth. Edrychwn ymlaen at flwyddyn arall sy'n llawn prysurdeb a llwyddiannau gyda'n gilydd.

Yn ddiffuant,

Simon Davies



Microsoft Microsoft Schools
Ysgol sy'n parchu hawliau UNICEF
Ysgol Rygbi School of Rugby
Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales